



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Trosolwg o'r adborth a gafwyd ar Egwyddorion Dylunio Drafft yr Ardaloedd Adnoddau Strategol

Gorffennaf 2021

Llun y clawr oddi wrth Croeso Cymru

OGL © Hawlfraint y Goron 2021 WG43275 ISBN digidol 978-1-80195-771-7

Hoffem ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i roi sylwadau a mewnbwn i'r gwaith o ddatblygu egwyddorion dylunio i lywio'r gwaith o fapio a nodi Ardaloedd Adnoddau Strategol (AASau) posibl ar gyfer polisi diogelu Polisi Morol Cenedlaethol Cymru (PMCC).

Yn ogystal ag adborth ar egwyddorion dylunio unigol a'r dull arfaethedig o fapio cyfyngiadau, derbyniwyd nifer o sylwadau hefyd yn ymwneud â phroses ddatblygu ehangach yr AAS a darparu mewnbwn defnyddiol i lywio'r broses ddatblygu ehangach. Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o'r themâu allweddol sy'n deillio o'r sylwadau a gafwyd ac yn nodi sut y caiff y rhain eu datblygu.

Egwyddorion Dylunio a Mapio Cyfyngiadau:

Roedd nifer o ymatebion yn cynnwys sylwadau ar egwyddorion dylunio penodol. Mewn ymateb, rydym wedi gwneud rhai diwygiadau i fanylion geiriad rhai o'r egwyddorion unigol. Rydym wedi cynnwys cyfeiriad at y diffiniad o gydfodoli a nodir yn y PMCC, gan egluro, yn unol â'r diffiniad hwn, y dylid deall bod yr egwyddor ddylunio o ran hyrwyddo cydfodoli yn ystyried cydleoli fel is-set o gydfodoli. Rydym hefyd wedi diweddarau geiriad yr egwyddor ddylunio sy'n ymwneud ag osgoi ffiniau AAS cymhleth neu ardaloedd digyswllt, mewn ymateb i sylw ynglŷn â natur ar raddfa fach yn aml yr ardaloedd profi ac arddangos ar gyfer technolegau adnewyddadwy morol sy'n datblygu. Yn benodol, rydym wedi diweddarau'r geiriad i egluro bod y cyfeiriad at 'ardaloedd digyswllt' yn ymwneud â sicrhau eglurder mesurau diogelu drwy osgoi nifer o ardaloedd bach, tameidiog ac ynysig iawn.

Cafwyd nifer o sylwadau hefyd yn tynnu sylw at ystyriaethau i'w harchwilio fel rhan o fapio'r ASS, ac anghenion tystiolaeth cysylltiedig. Roedd y rhain yn cynnwys ymholiadau mewn perthynas â methodolegau ar gyfer mapio a phwysoli cyfyngiadau, yn ogystal â sylwadau ac ymholiadau ynghylch:

- tybiaethau a wneir i osgoi gorgyffwrdd rhwng AASau;
- i ba raddau y bydd ystyried cyfleoedd cydfodoli yn ymddangos wrth bennu ffiniau'r AAS;
- y modd y bydd meysydd lle y gallai fod angen ystyried opsiynau amgen ar gyfer defnyddio adnoddau yn cael eu nodi; a
- meini prawf a fydd yn llywio ystyriaethau ynghylch 'digonolrwydd maint'.

Rydym wedi ymrwmo i gydweithio â rhanddeiliaid i ddatblygu'r AAS a byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ystyried y materion hyn. Rydym hefyd wedi ychwanegu at y ddogfen egwyddorion dylunio rywfaint o wybodaeth bellach am ffactorau sy'n debygol o fod yn berthnasol wrth ystyried 'digonolrwydd maint'. Gan gydnabod bod datblygiad yr AAS yn ymwneud â diogelu adnoddau ar lefel cynllun ac nid cydsynio ar lefel prosiect, rydym hefyd wedi ymrwmo i weithio gyda rhanddeiliaid i archwilio dulliau o fwrw ymlaen ag ystyriaethau o gyfleoedd a chyfyngiadau amgylcheddol fel rhan o ddatblygiad yr AAS.

Bydd penderfyniadau ynghylch a fydd unrhyw AAS penodol yn cael ei ddatblygu neu ei derfynu yn cael ei ddatblygu yn unol â'r meini prawf a nodir yn y PMCC (paragraffau 50-57), ac yn seiliedig ar dystiolaeth, mapio cyfyngiadau ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae ein dull o ddatblygu'r Awdurdod hefyd yn ymgorffori pwyntiau adolygu penodol ar adegau allweddol yn y broses, sef:

- wrth benderfynu a yw/pa AASau posibl i ymgynghori arnynt;
- wrth ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad ac unrhyw ddiwygiadau i'r dull gweithredu; a
- pryd, ar ôl ymgynghori, i benderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'u cyflwyno'n ffurfiol/pa AASau i'w cyflwyno'n ffurfiol.

Rydym wedi diweddarau'r 'Dull o ddatblygu AASau i gefnogi gweithredu polisi diogelu PMCC' i fynegi hyn yn glir.

Diffiniadau:

Rydym wedi ychwanegu geiriad ychwanegol i'r adran 'Diffiniadau' ynghylch rôl mapio cyfyngiadau o fewn datblygiad yr AAS a chyfeirio at gymhlethdod cydsynio, cysyniad y cyfeirir ato hefyd o fewn gwaith mapio a thystiolaeth ategol (er enghraifft, prosiect Rheoli Adnoddau Naturiol Morol yn Gynaliadwy). Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at natur terfyn amser rhai cyfyngiadau. Rydym wedi diweddarau'r diffiniad o 'gyfyngiad caled' ac wedi cyfeirio at y bwriad, yn unol â darpariaethau'r PMCC, i barhau i adolygu materion perthnasol mewn perthynas ag unrhyw AASau a gyflwynwyd. Rydym hefyd wedi diweddarau'r geiriad i adlewyrchu bod cyfyngiadau caled a meddal yn cael yr un ystyriaeth, yn hytrach na chael pwysoliad cyfartal o reidrwydd, o fewn y broses gynllunio a chydsynio.

Ffocws arfaethedig ar ardal y glannau:

Derbyniwyd rhai ymholiadau ynglŷn y bwriad i ganolbwyntio proses ddatblygu'r AAS ar ardal y glannau i raddau helaeth. Gan gydnabod dwyster gwasgariad adnoddau a gweithgarwch o fewn ardal y glannau, a'r gwaith strategol helaeth sy'n cael ei wneud ar lefel y DU i gynllunio ar gyfer datblygiadau gwynt arnawf a gwynt sefydlog, credwn fod mwy o gyfle i ychwanegu gwerth drwy ganolbwyntio ar ardal y glannau, tra hefyd yn ystyried adnoddau a gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag ardal y cynllun ar y môr fel y bo'n briodol drwy gydol y broses.

Materion ehangach:

Derbyniwyd nifer o ymholiadau a sylwadau mewn perthynas â chynllunio morol ehangach a'r dull o ddatblygu'r AAS. Mae'r rhain yn cynnwys cefnogaeth glir o blaid darparu mwy o eglurder gofodol drwy gynllunio morol, gan gynnwys sylwadau sy'n argymhell cynllunio datblygu mwy helaeth. Drwy ein dull gofodol o weithredu PMCC, rydym yn bwrw ymlaen â nifer o fentrau i gefnogi cynllunio sectoraidd ac yn helpu i gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer cynllunio morol i weithredu fel fframwaith galluogi ar gyfer datblygu

cynaliadwy. Ochr yn ochr â mapio meysydd adnoddau posibl i nodi a diogelu meysydd adnoddau allweddol, mae'r gwaith presennol yn cynnwys datblygu Canllawiau Lleoliadol y Sector (SLG) er mwyn deall cyfleoedd yn y dyfodol a chyhoeddi cyfleoedd ecolegol a mapio cyfyngiadau a thystiolaeth a gynhyrchwyd drwy brosiect Rheoli Adnoddau Naturiol Morol yn Gynaliadwy yn well. Rydym yn datblygu papur sy'n rhoi mwy o eglurder ar y gwaith sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd drwy'r dull gofodol, y dylid ei ddarllen ar y cyd â'r 'Dull o ddatblygu AAS i gefnogi gweithredu papur polisi diogelu PMCC' ac Egwyddorion Dylunio'r AAS. Edrychwn ymlaen at weithio gyda rhanddeiliaid i drafod y gwaith ehangach hwn. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i barhau i gysylltu'n agos ag Ystâd y Goron i ddeall a, lle y bo'n briodol, sicrhau'r potensial gorau posibl ar gyfer synergeddau a chyfatebolrwydd rhwng datblygiad AAS a thystiolaeth ehangach a gwaith mapio mewn perthynas â gwynt ar y môr.

Roedd nifer o sylwadau yn ymwneud â'r cyd-destun polisi ar gyfer datblygu'r AAS, ac a ddylai hyn, ac arwyddocâd datblygu AAS a chyfyngiadau mapio i gynllunio morol a sectoraidd ehangach i gefnogi datblygu cynaliadwy, gael ei fynegi yn y ddogfen egwyddorion dylunio. Mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar nodi'r egwyddorion dylunio a fydd yn helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu AASau posibl ac mae yn rhan o gyfres ehangach o ddogfennau sy'n darparu'r cyd-destun a'r rhesymeg polisi ar gyfer datblygu AASau, a dylid eu darllen ar y cyd â hwy. Rydym wedi ehangu y Cyflwyniad a 'Diben y ddogfen hon' o'r ddogfen egwyddorion dylunio er mwyn mynegi hyn yn gliriach a chynnwys cyfeiriadau at y dogfennau penodol sy'n nodi'r cyd-destun polisi ar gyfer datblygu'r AAS. Rydym hefyd wedi ail-edrych ar y bwriad i gymryd ymagwedd integredig a chydgyssylltiedig tuag at ddatblygu'r AAS. Er eglurder, rydym hefyd wedi ychwanegu diffiniad o AASau at y cyflwyniad i'r ddogfen egwyddorion dylunio.

Derbyniwyd nifer o sylwadau hefyd mewn perthynas â darparu canllawiau i gefnogi'r gwaith o weithredu polisi SAF_02 mewn perthynas ag unrhyw AAS y gellir eu cyflwyno. Bydd Canllawiau Gweithredu PMCC yn cael eu diweddarau, yn unol ag unrhyw gyflwyniad posibl (yn dilyn ymgynghoriad) o AASau, i roi arweiniad ar sut y dylai cynllunwyr a llunwyr penderfyniadau ystyried unrhyw AASau a chymhwyso polisiâu SAF_02.

I gloi:

Hoffem ddiolch eto i bawb sydd wedi gwneud sylwadau ar ddatblygu'r egwyddorion dylunio ac wedi cyfrannu at y gwaith o'u datblygu. Edrychwn ymlaen at barhau i weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid i ddatblygu'r gwaith o fapio a datblygu AASau posibl.

Tîm Cynllunio Morol
Llywodraeth Cymru